# Comisiwn y Cynulliad

**Lleoliad:** Conference Room 4B – Tŷ Hywel

**Dyddiad:** Dydd Llun, 5 Rhagfyr 2016

**Amser:** 13.00

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:**

Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Sulafa Thomas, x6227

0300 200 6227 sulafa.thomas@Cynulliad.Cymru

# Agenda AC(5)2016(6)

## 1 Cyflwyniad

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiad o fuddiant**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol** (Tudalennau 1 – 3)

## 2 Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion strategol

*Eitemau llafar*

**Y wybodaeth ddiweddaraf o ystâd y Cynulliad ar lafar**

**Ymgynghoriad ar newid enw / panel arbenigol ar ddiwygio cyfansoddiadol**

**Expert panel on constitutional reform**

**Tasglu digidol / cyfarfodydd ag arweinwyr y pleidiau**

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad yr adolygiad diogelwch ar gyfer swyddfeydd Aelodau

*Eitem lafar*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**4 Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol** (Tudalennau 4 - 95)

*Papur 2 ac atodiadau*

**5 Contractau a chaffael** (Tudalennau 96 - 101)

*Papur 3*

**6 Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol (Ebrill-Medi 2016)** (Tudalennau 102 - 117)

*Papur 4*

**7 Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Comisiwn (Mai-Rhagfyr 2016)** (Tudalennau 118 - 160)

*Papur 5*

**8 Y wybodaeth ddiweddaraf o'r cyfarfod ACARAC a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd**

*Eitem lafar*

**9 Unrhyw fater arall**

Eitem 1.3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Barnwyd nad yw'r papur hwn yn addas i'w gyhoeddi yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw'r papur hwn yn addas i'w gyhoeddi yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Barnwyd nad yw’r papur hwn yn addas i’w gyhoeddi yn unol â rheolau’r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Adroddiad ar y Prif Bwyntiau i'r Comisiwn - mis Mai i fis Rhagfyr 2016

**Cynnwys**


1.0 Cyflwyniad ....... 3

**A. Nod Strategol - darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** ....... 4

2.0 Newid cyfansoddiadol ....... 4

3.0 Bwrdd Taliadau ....... 6

4.0 Trefniadau Croesawu a Sefydlu / Datblygiad Proffesiynol Parhaus ....... 7

5.0 Sut y mae'r Aelodau a'u staff wedi bod yn defnyddio'r Gwasanaeth Ymchwil ....... 10

6.0 Ymgysylltu a gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE ....... 12

7.0 Adolygiad o arolwg boddhad yr Aelodau a'u Staff Cymorth ....... 14

8.0 Adolygiad o Ddiogelwch ....... 15

9.0 Adolygiad o Ddigwyddiadau'r Cynulliad ....... 15

**B. Nod strategol - ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad** 17

10.0 Senedd Ieuenctid a Thasglu Digidol ....... 17

11.0 Ymgysylltiad y cyhoedd â phwyllgorau ....... 18

12.0 Sylw yn y cyfryngau ....... 20

13.0 Cyfathrebu Mewnol ....... 22

14.0 Cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad ....... 28

15.0 Digwyddiadau Mawr ....... 31

**C. Nod strategol - defnyddio adnoddau'n ddoeth** ....... 34

16.0 Gwaith ar ystâd y Cynulliad ....... 34

17.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ....... 34

18.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd ....... 35

19.0 Diweddariadau staff ....................................................................35

**D. Diweddariad Ariannol** ....................................................................38

20.0 Sefyllfa ariannol 2016-17 ....................................................................38

21.0 Y Bwrdd Pensiynau Newydd ....................................................................39

**E. Rhyddid Gwybodaeth (FOI)** ....................................................................40

22.0 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2016 ....................................................................40

**Tachwedd 2016**

# Adroddiad ar y Prif Bwyntiau i'r Comisiwn - mis Mai i fis Rhagfyr 2016

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Hwn yw'r adroddiad cyntaf ar y prif bwyntiau yn y Pumed Cynulliad ac mae'n cyflwyno diweddariad ar y cynnydd tuag at nodau strategol y Comisiwn a gweithgareddau a phrosiectau allweddol ers mis Mai 2016. Mae'n darparu cofnod o waith a chyflawniadau'r Comisiwn a'i nod yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Comisiwn fel rhan o rôl oruchwylio a dwyn rheolwyr i gyfrif.

1.2 Cynhyrchwyd yr adroddiad yn dymhorol yn y gorffennol, gan gywain gwybodaeth am bob maes gwasanaeth yng Nghomisiwn y Cynulliad i roi darlun eang, o sylwedd o weithgareddau, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd mewn perthynas â materion strategol y mae'r Comisiynwyr wedi'u trafod. Maes o law, caiff yr adroddiad ei gyhoeddi'n allanol ar dudalennau gwe y Comisiwn a'i hyrwyddo i Aelodau a staff drwy'r dudalen newyddion a diweddariadau misol gan y Prif Weithredwr, fel ffordd ddefnyddiol o gyfathrebu gwybodaeth am brosiectau, gweithgareddau, perfformiad a chyflawniadau.

# A. Nod Strategol - darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

## 2.0 Newid cyfansoddiadol

### Bil Cymru 2016 - newid y setliad datganoli

2.1 Ar 7 Mehefin 2016 cyflwynwyd Bil Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns. Mae'n dilyn y Bil drafft a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf, a oedd yn destun gwaith craffu cyn y broses ddeddfu gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol blaenorol a'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn San Steffan. Yn sgil y gwaith craffu hwnnw, nodwyd amrywiaeth o bryderon yn enwedig mewn perthynas â nifer y profion i asesu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a'u cymhlethdod, a'r ffaith yr ymddengys fod sefyllfa o gamu'n ôl o ran cymhwysedd presennol y Cynulliad.

2.2 I grynhoi, mae Bil Cymru yn:

- cydnabod sefydlogrwydd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru;
- ffurfioli gweithdrefn cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad mewn statud;
- newid y setliad datganoli i fodel pwerau a gedwir yn ôl;
- rhoi pŵer i'r Cynulliad reoli ei drefniadau ei hun - ei enw, ei faint, systemau etholiadol, ei gyfansoddiad mewnol;
- rhoi pwerau a swyddogaethau pellach i Weinidogion Cymru mewn meysydd sy'n cynnwys ynni, trafnidiaeth a thrwyddedu morol.

2.3 Pan gafodd ei gyflwyno, roedd y Bil yn adlewyrchu nifer o newidiadau i wella'r cyfyngiadau a roddwyd ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a godwyd fel pryderon yn ystod y broses graffu cyn deddfu.

2.4 Roedd yr amserlen ar gyfer craffu ar y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin yn dynn. Cymerodd y Llywydd y cam arloesol o gyhoeddi gwelliannau posibl i'r Bil mewn perthynas â'r meysydd pryder allweddol. Roedd y rhain yn

cynnwys, y modd y byddai gan y Cynulliad gyfrifoldeb dros ei faterion ei hun; a sut y byddai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei benderfynu. Ysgrifennodd y Llywydd at holl Aelodau Seneddol Cymru ac at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru gyda gwelliannau arfaethedig a gyhoeddwyd hefyd ar dudalennau gwe y Cynulliad a rhoddodd dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd bron pob un o'r gwelliannau hynny gan Aelodau Seneddol ac fe'u trafodwyd yn ystod dadleuon ar ddiwrnod pwyllgorau ym mis Gorffennaf 2016.

2.5 Daeth proses graffu Tŷ'r Cyffredin i ben gyda chyfnod adrodd ar 12 Medi ac mae proses graffu bedwar diwrnod ar y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi bellach wedi cael ei chwblhau. Manteisiodd y Llywydd ar y cyfle i gyhoeddi gwelliannau pellach er mwyn tynnu sylw at y ffaith bod camu'n ôl o ran cymhwysedd y Cynulliad drwy newid y gofynion cydsyniad Gweinidogol sy'n parhau i fod yn rhan o'r Bil.

2.6 Mae Llywodraeth y DU wedi ymateb i rai o bwyntiau'r Llywydd ar weithrediad y Cynulliad ac yn benodol diwygiwyd y Bil er mwyn:

- trosglwyddo pŵer i'r Llywydd amrywio dyddiad etholiad cyffredinol cyffredin a phennu dyddiad etholiad cyffredinol eithriadol.
- ymestyn yr amser y mae'n rhaid i'r Cynulliad gyfarfod ac ethol Llywydd o 7 i 14 diwrnod;
- dileu'r gofyniad am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud gwelliannau i ddarpariaethau ariannol yn Rhan 5 ac adran 159 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n ymwneud â gweithdrefnau cyllidebol y Cynulliad ei hun;
- sicrhau mai dim ond at y dibenion y cawsant eu hawdurdodi y gellir defnyddio cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.

2.7 Dechreuodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol graffu ar y Bil yn union ar ôl ei gyflwyno, gan adeiladu ar waith y Pwyllgor a'i rhagflaenodd. Mae wedi derbyn tystiolaeth lafar gan amrywiaeth o wleidyddion, arbenigwyr cyfreithiol ac academyddion, gan gynnwys y Llywydd, ac wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn

ystod yr haf a dechrau'r hydref. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar 5 Hydref yn croesawu elfennau o'r Bil ond yn argymell newidiadau pellach i gyflawni'r gwelliant sylweddol sydd ei angen o hyd. Roedd yr adroddiad yn cymeradwyo'n benodol y gwelliannau arfaethedig a gynigiwyd gan y Llywydd. Trafododd a chynigiodd y Cynulliad gynnig i nodi'r adroddiad a'r argymhellion ar 19 Hydref.

2.8 Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil a disgwylir iddi gyflwyno memorandwm atodol pan fydd y Bil wedi cwblhau'r cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Rhagwelir y bydd y cyfnod adrodd yn cymryd dau ddiwrnod gyda'r diwrnod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 14 Rhagfyr a'r ail ddiwrnod yn gynnar ym mis Ionawr. Yna bydd y Cynulliad yn ystyried a ddylai roi ei gydsyniad i'r Bil.

## 3.0 Bwrdd Taliadau

3.1 Mae'r Bwrdd wedi bod yn canolbwyntio ar ddeall anghenion Aelodau yn y Cynulliad newydd a dod i adnabod deiliaid swyddi newydd a'r heriau cyfansoddiadol sy'n wynebu'r Bwrdd a'r Cynulliad yn y dyfodol.

3.2 Mae'r Bwrdd wedi bod yn ystyried ei drefniadau llywodraethu a'i egwyddorion a phennu ei strategaeth waith ar gyfer y Pumed Cynulliad, wrth baratoi ar gyfer creu Penderfyniad addas ar gyfer y Chweched Cynulliad.

3.3 Hefyd, gwnaeth y Bwrdd nifer o benderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ar gyfer 2016-17, cyfanswm y lwfans ar gyfer costau Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol a chostau rhentu swyddfeydd ar draws Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma. Mewn perthynas â chwyddiant, cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r lwfans costau swyddfa 1%.

3.4 Lluniodd y Bwrdd y cynllun pensiwn terfynol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a gymeradwywyd yn ffurfiol gan Drysorlys EM ym mis Mai 2016 a phenododd yn ffurfiol Fwrdd ymddiriedolwyr newydd, gyda Jill Youds yn Gadeirydd annibynnol arno.

3.5 Ymddiswyddodd Roger Williams o'r Bwrdd ym mis Mai 2016 i fynd ar drywydd diddordebau gwleidyddol.

3.6 Dros y misoedd nesaf, bydd y Bwrdd Taliadau yn canolbwyntio ar gyflawni ei strategaeth, gan ddechrau gydag ymarfer i ymchwilio i gymhellion a rhwystrau i ymuno â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Bwrdd hefyd yn adolygu'r egwyddorion sy'n sail i'r Penderfyniad ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y darpariaethau presennol sydd wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad.

## 4.0 Trefniadau Croesawu a Sefydlu / Datblygiad Proffesiynol Parhaus

*Trefniadau croesawu a sefydlu*

4.1 Rhoddwyd rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau croesawu a sefydlu ar waith ar gyfer dechrau'r Pumed Cynulliad. Roedd y trefniadau croesawu'n seiliedig ar y digwyddiad tyngu llw, a gynhaliwyd dros gyfnod o dridiau yn union ar ôl yr etholiad. Roedd hyn yn sicrhau y gallai Aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd dyngu llw neu wneud cadarnhad yn gyflym, gan eu galluogi hwy a'u staff i gael mynediad i wasanaethau Comisiwn y Cynulliad. Tyngodd y rhan fwyaf o'r Aelodau eu Llw yn y Siambr. Gwnaed darpariaeth ar gyfer Aelodau yn y gogledd neu'r gorllewin os oedd yn well ganddynt dyngu llw yno, a manteisiodd nifer ar y cyfle, gyda rhai yn cael eu ffilmio yn tyngu llw yn y Siambr ar eu hymwelid cyntaf â'r Cynulliad.

4.2 Roedd y gwasanaethau canlynol wrth law i roi cyngor dros y tridiau ac anogwyd yr Aelodau i gael trafodaethau cynnar gyda phob un o'r gwasanaethau hyn ar eu hymweliad cyntaf. Roedd cynrychiolwyr o'r grwpiau gwleidyddol hefyd yn cael eu hannog i fod wrth law i gwrdd ag Aelodau ar ôl cyrraedd:

| | |
|---|---|
| Cofrestrydd buddiannau'r Aelodau | Cyngor ar gofrestru buddiannau |
| TGCh | Gweithredu cyfrif TGCh; cyngor ar TGCh a darparu cyfarpar TGCh |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | Dyrannu swyddfeydd |
| Diogelwch | Cyhoeddi cardiau adnabod, briff lefel uchel ar ddiogelwch |

| | |
|---|---|
| Cymorth Busnes i Aelodau | Cyngor ar gyflogau a lwfansau gan gynnwys cyflogi staff a swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol |

4.3 Roedd tywyswyr o bob rhan o'r sefydliad wrth law i helpu'r rhai a oedd newydd gael eu hethol i gael mynediad i'r cymorth a'r cyngor yr oedd eu hangen arnynt yn gynnar, ac i sicrhau bod yr Aelodau a oedd yn dychwelyd yn gallu dechrau ar eu gwaith yn gyflym.

4.4 Mae'r adborth ar y trefniadau ar gyfer croesawu Aelodau wedi bod yn hynod gadarnhaol. Mae rhai Aelodau sydd â phrofiad o ddeddfwrfeydd eraill wedi bod yn hynod ganmoladwy, gan awgrymu bod y trefniadau yma yn sylweddol well nag mewn sefydliadau eraill.

4.5 Cafodd yr Aelodau etholedig newydd eu hannog i fynychu sesiynau sefydlu. Mynychodd pob un o'r 22 Aelod newydd y sesiynau canlynol:

- Siambr a busnes cynnar (gan gynnwys hyfforddiant ar system TGCh y Siambr);
- Briff ar safonau ymddygiad;
- Sefydlu eich swyddfa - cyngor ar staffio, lwfansau a pharamedrau cyfreithiol ar ymdrin â gwaith achos.

4.6 Roedd rhaglen o sesiynau dilynol wedi'i theilwra ar gael hefyd. Roedd y cynnwys a'r amserlenni'n amrywio yn unol ag anghenion pob plaid wleidyddol, a chafodd pob plaid ac Aelodau unigol gyfle i ddylanwadu'n sylweddol ar y cynnwys. Nod y rhaglen oedd rhoi'r wybodaeth berthnasol ar yr adeg iawn i'r rhai a oedd newydd gael eu hethol - gan adlewyrchu'r gweithgareddau a'r blaenoriaethau yr oedd yr Aelodau'n debygol o'u hwynebu yn ystod yr wythnosau cyntaf. Nodwyd y rhain yn ystod trafodaethau gyda'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y cyfnod cynllunio, fel a ganlyn:

- Wythnos 1: Dechrau arni a deall sut mae'r Cynulliad yn gweithio (gweler uchod);
- Wythnosau 2-4: Sefydlu swyddfa (sesiynau sefydlu ar gymorth i ymdrin â gwaith achos, llywodraethu gwybodaeth, gweithio'n ddwyieithog, cyflwyno busnes a busnes y siambr);

- Wythnosau 5-8: Busnes fel arfer (roedd y sesiynau'n cynnwys sesiynau briffio pwnc ar gyfer gwaith achos, Biliau Aelodau, diogelwch).

4.7 Roedd y sesiynau dilynol a gynhaliwyd yn ystod wythnosau 2-8 yn hyblyg. Fe'u trefnwyd ar gyfer unigolion neu grwpiau bach o Aelodau, yn unol ag anghenion penodol, gan gynnwys sesiynau briffio ar ddiogelwch a gweithio'n ddiogel, cyflwyno busnes, busnes y siambr, cymorth ymchwil a chymorth cyfreithiol ar gyfer ymdrin â materion etholaethol, briffiau ymchwil ar faterion sy'n codi fel rhan o waith achos (er enghraifft tai, cynllunio ac iechyd), deddfwriaeth a gwneud deddfau, a gweithio'n ddwyieithog.

4.8 Ochr yn ochr â'r sesiynau hyn, trefnwyd briffiau sefydlu rheolaidd ar gyfer unrhyw staff a benodwyd gan yr Aelodau. Cafodd y rhain eu cyflwyno'n drawsbleidiol ac ar sail grwpiau pleidiau, yn dibynnu ar nifer y mynychwyr a'r ceisiadau a dderbyniwyd. Maent yn parhau i gael eu darparu'n rheolaidd, yn ogystal â sesiynau hyfforddi neu friffio mwy manwl ar faterion perthnasol.

*Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus*

4.9 Yn dilyn y gwaith sefydlu, mae rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar waith, gyda lefelau uchel o ymgysylltu yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y Cynulliad hwn ymysg yr Aelodau a'u Staff Cymorth. Ers mis Mai 2016, mae 44 o blith y 60 Aelod a 139 o blith 250 o Staff Cymorth yr Aelodau wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o DPP. Bydd y rhaglen yn esblygu yn unol ag anghenion a nodwyd gan Aelodau unigol, grwpiau neu staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a bydd yn adlewyrchu'r newidiadau y bydd yr Aelodau yn eu hwynebu wrth gyflawni eu gwaith yn y Pumed Cynulliad.

4.10 Mae'r math o gymorth a ddarparwyd hyd yma neu sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y misoedd i ddod yn cynnwys biliau Aelodau, craffu ar ddeddfwriaeth, craffu ar ddeddfwriaeth treth, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, arweinyddiaeth, sesiynau briffio ar bynciau amserol (er enghraifft ar Fil Cymru a Brexit), hyfforddiant TGCh a gwersi Cymraeg.

4.11 Mae'r dull darparu wedi'i deilwra ac yn hyblyg, gyda sesiynau briffio byr un-i-un neu drwy ddefnyddio technoleg fel skype, sesiynau

pwyllgor, a sesiynau ar gyfer grwpiau o Aelodau, grwpiau o staff neu'r ddau. Mae unrhyw sesiynau sydd wedi'u hanelu at bwyllgorau'r Cynulliad yn tueddu i ddigwydd yn ystod amser y pwyllgor ac anaml y maent yn hwy na dwy awr. Cânt eu cynnal gan arbenigwyr mewnol neu arbenigwyr allanol fel y bo'n briodol.

4.12 Yn gyffredinol, mae'r adborth yn gadarnhaol iawn ac mae cefnogaeth i'r rhaglen ar draws yr holl bleidiau. Yn y nifer fach o achosion lle mae Aelodau wedi teimlo nad oeddent wedi elwa'n sylweddol drwy gymryd rhan mewn sesiwn, rhoddir sylw i adborth gan ei ddefnyddio i lywio'r cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. Roedd y cyfnod sefydlu yn gyfle allweddol i dynnu sylw at y math o gymorth sydd ar gael a datblygu perthynas gydag Aelodau a'u staff, ond mae'r rhaglen yn adeiladu ar fomentwm y Cynulliad blaenorol.

## 5.0 Sut y mae'r Aelodau a'u staff wedi bod yn defnyddio'r Gwasanaeth Ymchwil

5.1 Fel rhan o ddull cydlynol gwasanaethau'r Comisiwn o gynnal rhaglen sefydlu, cynigiodd y Gwasanaeth Ymchwil amrywiaeth gynhwysfawr o gynhyrchion croesawu a sefydlu a sesiynau polisi amserol i Aelodau newydd a'r rhai a oedd yn dychwelyd. Cafodd pob Aelod gopi o Materion o Bwys i'r Pumed Cynulliad yn nodi detholiad o erthyglau allweddol ar faterion polisi sy'n debygol o fod yn bwysig i'r Aelodau. Cafodd hyn groeso brwd, gan yr Aelodau yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol.

5.2 Dosbarthwyd mapiau etholaeth i'r holl Aelodau yn eu dyddiau cyntaf a threfnwyd sesiynau galw heibio yn y llyfrgell a'r Cwrt. Gofynnodd yr Aelodau am restrau darllen ar wahanol bynciau, a datblygwyd canllawiau etholaeth newydd a 'hwb etholaeth' i helpu Aelodau i ymdrin â gwaith etholaethol. Ar y cyfan sicrhaodd y rhaglen sefydlu yn ystod pedair wythnos gyntaf y tymor fod y Gwasanaeth yn cyrraedd 23 o Aelodau'r Cynulliad a 26 o Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, a dim ond pedwar o Aelodau Cynulliad newydd nad oeddent yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw un o'r gweithgareddau sefydlu cynnar.

5.3 Ers dechrau'r Cynulliad hwn, mae'r Aelodau a'u staff wedi gwneud defnydd da o'r Gwasanaethau Llyfrgell ac Ymchwil:

mae 51 o Aelodau (85%) wedi cyflwyno o leiaf 5 ymholiad

mae 54 o Aelodau (90%) wedi cyflwyno o leiaf 3 ymholiad

mae 56 o Aelodau (93%) wedi cyflwyno o leiaf 2 ymholiad

5.4 Y pynciau mwyaf poblogaidd y mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cael ei holi amdanynt yw:

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Addysg a Sgiliau | 186 | 16.8 |
| Iechyd | 142 | 12.8 |
| Yr Economi | 98 | 8.8 |
| Trafnidiaeth | 66 | 6.0 |
| Yr Amgylchedd | 56 | 5.1 |
| Tai | 56 | 5.1 |

5.5 Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo briffiau ffeithiol a briffiau ar faterion cyfoes i'r Aelodau, eu staff, rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ar y dull o gyhoeddi gwybodaeth drwy'r blog Pigion/In Brief, a hyrwyddo drwy Twitter, gan randdeiliaid yn arbennig. Mae'r erthyglau Blog yn uniongyrchol gysylltiedig â busnes y Cynulliad a materion amserol, a chyhoeddwyd 142 o erthyglau ers 1 Mai 2016, sydd wedi'u gweld gyfanswm o 66,922 o weithiau. Mae 40 o Aelodau'n dilyn @SeneddResearch ac mae 15 yn dilyn @SeneddYmchwil. Roedd y trydariad mwyaf poblogaidd yn hyrwyddo erthygl blog cyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar droseddau casineb.




5.6 Gweithiodd y Gwasanaeth Ymchwil hefyd gyda Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi i gynhyrchu briff ar Fil Cymru a gafodd ei groesawu, ac aildrydarodd Huw Edwards, cyflwynydd y BBC, yr erthygl blog ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil Cymru




## 6.0 Ymgysylltu a gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE

*Y bleidlais i adael yr UE*

6.1 Mae gwaith ar faterion yr UE yn ystod y Pumed Cynulliad wedi cael ei ddylanwadu'n gryf gan Refferendwm yr UE a'r bleidlais i adael yr UE.

6.1 Cyhoeddwyd Papur Ymchwil ar oblygiadau canlyniad Refferendwm yr UE i Gymru a gyhoeddwyd ar 24 Mehefin, o fewn oriau i'r canlyniad gael ei ddatgan. Rhoddwyd sylw eang i'r cyhoeddiad hwn yn y cyfryngau yng Nghymru, a dyma'r cyhoeddiad gyda'r cyrhaeddiad mwyaf o bell ffordd o blith unrhyw un o gyhoeddiadau'r Cynulliad ar Facebook a Twitter. Fe'i defnyddiwyd i friffio'r Aelodau, eu staff cymorth a swyddogion y Cynulliad yn ystod yr wythnos yn dilyn y refferendwm, yn ogystal â darparu ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon o ran darparu cyd-destun i'w hymatebion i'r bleidlais Brexit.

6.2 Mae Aelodau a swyddogion wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau a seminarau sy'n gysylltiedig â Brexit, ers y bleidlais yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.

*Brexit a Phwyllgorau'r Cynulliad*

6.3 Yn dilyn y bleidlais ar Refferendwm yr UE cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddynodi'r pwyllgor 'wrth gefn' newydd yn bwyllgor arweiniol ar gyfer materion sy'n ymwneud â Brexit, gyda'r teitl Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

6.4 Yn ystod tymor yr hydref mae'r Pwyllgor hwn wedi cynnal cyfres o seminarau thematig gan fanteisio ar arbenigedd academaidd ac arbenigedd arall ar faterion yr UE o Gymru, y DU, Iwerddon ac ar lefel yr UE. Mae hyn wedi canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth yr aelodau a'r cyhoedd yn ehangach o'r hyn y gallai trafodaethau Brexit a'r trefniadau ar ôl Brexit o fewn y DU a chyda'r Undeb Ewropeaidd ei olygu i Gymru. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal dwy sesiwn graffu ar waith y Prif Weinidog, yn ogystal ag ymweliad canfod ffeithiau i Frwsel ym mis Medi ac i ogledd Cymru ym mis Tachwedd (gan gyfarfod gyda busnesau Cymreig).

6.5 Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y darn cyntaf hwn o waith ym mis Ionawr, a bydd yn dilyn hyn gyda sesiynau pellach ar baratoadau Cymru ar gyfer y trafodaethau ar Erthygl 50 a Bil y Diddymu Mawr arfaethedig Llywodraeth y DU, y disgwylir iddo gael ei gynnwys yn Araith y Frenhines yng nghanol 2017.

6.6 Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau a rhanddeiliaid ehangach ar y datblygiadau sy'n gysylltiedig â Brexit mae Swyddfa'r UE yn cynhyrchu 'Diweddariad ar Brexit' newydd, gyda'r newyddion diweddaraf ar lefel Cymru, y DU a'r UE.

6.7 Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad i ystyried sut olwg allai fod ar bolisi amaethyddiaeth a datblygu gwledig ar ôl Brexit. Mae nifer o bwyllgorau eraill hefyd yn ymchwilio i waith sy'n gysylltiedig â Brexit.

*Ymweliadau â Brwsel*

6.8 Cafwyd tri ymweliad â Brwsel gan ddirprwyaethau'r Cynulliad yn ystod y Pumed Cynulliad: ymweliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Plaid Cymru, ac Andrew RT Davies AC.

*Pwyllgor y Rhanbarthau*

6.9 Ni fu unrhyw weithgaredd ar Bwyllgor y Rhanbarthau ers yr etholiad. Nid yw Prif Weinidog Cymru wedi enwebu dau gynrychiolydd o'r Cynulliad ar gyfer y corff UE hwn eto, sef cam cyntaf y broses o benodi aelodau - byddai angen i'r enwebeion gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y DU a'u cyflwyno i'r Cyngor (ym Mrwsel ) ar gyfer cymeradwyaeth derfynol.

*CALRE*

6.10 Mynychodd y Llywydd gyfarfod o Bwyllgor Sefydlog a Chyfarfod Llawn CALRE, rhwydwaith yr UE o ddeddfwrfeydd a seneddau is-genedlaethol, a gynhaliwyd yn Varese, yr Eidal ym mis Tachwedd.

## 7.0 Adolygiad o arolwg boddhad yr Aelodau a'u Staff Cymorth

7.1 Sefydlwyd gweithgor yn ystod haf 2016 i gynnal adolygiad o arolwg boddhad yr Aelodau a'u Staff Cymorth. Nid yw'r grŵp yn cynnig unrhyw newidiadau mawr i'r arolwg presennol ond yn hytrach mae'n edrych ar ffyrdd o'i wella.

7.2 Y prif argymhellion yw:

- addasu'r amseru er mwyn ei ddefnyddio'n sail i'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac adroddiad blynyddol y Comisiwn. Bwriedir ei lansio ym mis Chwefror 2017 a chyflwynir adroddiad arno ym mis Ebrill 2017;

- gwella lefelau ymgysylltu â staff swyddfeydd etholaethau;
- ailstrwythuro'r cwestiynau yn unol â nodau strategol Comisiwn y Cynulliad;
- rhoi cyfle i Aelodau a staff cymorth godi materion a phryderon mewn cyfweliad wyneb yn wyneb os ydynt yn dymuno.

## 8.0 Adolygiad o Ddiogelwch

8.1 Ers mis Awst 2016 mae swyddogion cymwys wedi bod yn ymweld â swyddfeydd yr Aelodau i asesu eu gofynion o ran gwella diogelwch a nodi camau y mae'n 'rhaid' eu cymryd, y 'dylid' eu cymryd neu y 'gellid' eu cymryd i wella diogelwch. Cytunodd y Bwrdd Taliadau ar gyllid i Aelodau, a ddarperir yn ganolog, ar gyfer y cyfarpar y mae'n 'rhaid' neu y 'dylid' ei osod i'w helpu i wneud eu llety yng Nghaerdydd neu eu prif gartrefi, yn ogystal â'u swyddfeydd, yn ddiogel, gydag achos yn cael ei gyflwyno gan yr Aelodau ar gyfer ariannu'r cyfarpar y 'gellid' ei osod.

## 9.0 Adolygiad o Ddigwyddiadau'r Cynulliad

9.1 Amcan yr adolygiad o Ddigwyddiadau'r Cynulliad yw darparu 'gwasanaeth digwyddiadau seneddol o'r radd flaenaf'. Er bod consensws cyffredinol bod y Cynulliad yn darparu digwyddiadau o safon, derbynnir hefyd bod y system yn aneffeithlon, yn ailadroddus ac nad yw'n darparu'r gwasanaeth gorau i gwsmeriaid. Mae hefyd yn colli cyfleoedd i gynnwys pobl ym musnes y Cynulliad.

9.2 Nodau'r adolygiad yw:

a. cynyddu ymgysylltiad pobl Cymru â'r Cynulliad, drwy ddarparu digwyddiadau seneddol o'r radd flaenaf, drwy:
   - godi proffil y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a'u gwaith ar draws Cymru a thu hwnt;
   - annog a hwyluso cyfranogiad yng ngwaith y Cynulliad drwy wneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil digwyddiadau;
   - codi proffil y Senedd a'r ystâd ehangach drwy fabwysiadu dull strategol o gynnal digwyddiadau;
   - creu argraff gadarnhaol o'r Cynulliad a'i staff.

b. sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei reoli'n strategol a'i ddarparu yn unol â nodau a blaenoriaethau cyffredin;

c. creu system ddigwyddiadau effeithlon ac effeithiol a fydd yn:

- darparu proses sengl, gyffredin a syml ar gyfer pob cwsmer Digwyddiadau'r Cynulliad;
- cael ei chyflwyno drwy systemau effeithlon sydd wedi'u symleiddio.

9.3 Bydd yr adolygiad yn dod i ben cyn y Nadolig.

# B. Nod strategol - ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

## 10.0 Senedd Ieuenctid a Thasglu Digidol

10.1 Cynigiodd y Comisiynwyr eu cefnogaeth ddiamwys i ddwy fenter o bwys ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd - sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru, wedi'i chefnogi a'i hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad, a datblygu Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol.

10.2 Yn dilyn cytundeb unfrydol y Cynulliad ym mis Hydref, cytunodd y Comisiynwyr i fwrw ymlaen â chynlluniau i ddatblygu Senedd Ieuenctid newydd i Gymru, wedi'u llywio gan farn arbenigwyr yn y maes ac amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc. Bydd y cynlluniau hyn yn adeiladu ar waith yr Ymgyrch dros Gynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru, y disgwylir iddi gyflwyno ei hadroddiad cyn diwedd 2016. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer Senedd Ieuenctid yn gynnar yn 2017 gyda'r bwriad o benderfynu ar y cynrychiolwyr cyntaf yn ail hanner y flwyddyn a chynnal cyfarfod cyntaf y Senedd Ieuenctid yn 2018.

10.3 Yn dilyn cyhoeddiad y Llywydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, bydd y Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol, dan gadeiryddiaeth Leighton Andrews, yn dechrau ei waith ar 21 Tachwedd 2016. Trafododd yr aelodau syniadau newydd ynghylch sut y gall y Cynulliad ddarparu newyddion a gwybodaeth fwy diddorol a hygyrch am ei waith a bydd yn adrodd i'r Comisiwn yng ngwanwyn 2017. Aelodau eraill y tasglu yw:

- Cath Allen - Aelod o Fwrdd BBC Cymru a chyn-newyddiadurwr y BBC
- James Downes - Pennaeth Cynnyrch Tŷ'r Cwmnïau
- Ifan Morgan Jones - Darlithydd mewn Newyddiaduraeth yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor
- Valerie Livingston - Cyfarwyddwr y cwmni gwybodaeth wleidyddol, newsdirect wales
- Hannah Mathias - arbenigwr ar Dechnoleg ac Adnoddau Dysgu

- Emma Meese - Canolfan Prifysgol Caerdydd ar gyfer Newyddiaduraeth Gymunedol
- Gareth Rees - Datblygwr Meddalwedd yn mySociety
- Iain Tweedale - Pennaeth Ar-lein a Dysgu BBC Cymru
- Andy Williamson - sylfaenydd cwmni ymchwil ac ymgynghori Future Digital

## 11.0 Ymgysylltiad y cyhoedd â phwyllgorau

11.1 Drwy eu holl waith, mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn ehangu'r ystod o bobl sy'n cyfrannu at eu gwaith. Ymysg yr enghreifftiau mae:

| Pwyllgor | Digwyddiad / gweithgaredd |
|---|---|
| Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth gyda rhanddeiliaid fel rhan o'i ymchwiliad i Fil Cymru Llywodraeth y DU ar 11 Gorffennaf, lle y lansiwyd trafodaeth loomio. Roedd hwn yn gyfle i'r Pwyllgor a rhanddeiliaid drafod, dadlau a rhannu syniadau ar Fil Cymru yn ystod ei daith drwy Senedd y DU.<br><br>Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar ei ymchwiliad ym mis Hydref a chrewyd adroddiad spark fel crynodeb o'r adroddiad. |
| Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau | Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i Ardrethi Busnes yng Nghymru, ac fel rhan o hynny cynhaliodd y tîm Allgymorth gyfweliadau fideo gyda busnesau bach a chanolig ledled Cymru. Dangoswyd y fideo terfynol i'r Pwyllgor yn ystod brecwast busnes ar 5 Hydref. Mae rhagor o wybodaeth am y digwyddiad a'r ymchwiliad byr i'w gweld ar flog y Cynulliad. |
| Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu | Dros yr haf, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad.<br>Ym mis Gorffennaf trafododd Cadeirydd y Pwyllgor, Bethan Jenkins AC ei nodau ar gyfer gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol drwy Facebook Live, gan wahodd syniadau ar gyfer yr hyn y dylai'r Pwyllgor ei flaenoriaethu drwy Facebook, Twitter ac mewn digwyddiad yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru.<br><br>Ar sail y trafodaethau hyn, lansiodd y Pwyllgor arolwg barn a |

| **Pwyllgor** | **Digwyddiad / gweithgaredd** |
|---|---|
| | roddodd gyfle i bobl Cymru bleidleisio ar ba ymchwiliad y dylai'r Pwyllgor ei gynnal yn y dyfodol. Caeodd yr arolwg ar 14 Tachwedd a chafwyd 2660 o ymatebion.<br><br>Yn ogystal â thrafod eu blaenoriaethau, gofynnodd y Pwyllgor i bobl Cymru gynnig syniadau ar gyfer cwestiynau cyn ei gyfarfod gyda Tony Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC. Casglwyd cwestiynau drwy #AskBBC / #HoliBBC a thrwy sylwadau ar dudalen Facebook y Cynulliad, a oedd yn sail i gyfarfod y Pwyllgor ar 2 Tachwedd. |
| Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon | Cynhaliodd y Pwyllgor ymarfer cwmpasu dros yr haf ar Gynaliadwyedd y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Helpodd y tîm Allgymorth i rannu arolwg ar gyfer staff y gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a rhoi cyhoeddusrwydd iddo.<br><br>Cafodd y Pwyllgor gyfanswm o 856 o ymatebion i'r arolwg. |
| Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau | Mae'r Pwyllgor wedi bod yn cynnal ymchwiliad ar ôl deddfu ar *Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, ymwelodd y Pwyllgor â 4 o brosiectau ledled Cymru i drafod eu gwaith - BAWSO, Calan DVS, Prosiect Rainbow Bridge a Cymorth i Ferched Casnewydd. Crewyd adroddiad spark fel rhan o'r ymchwiliad hwn.<br><br>Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, ymwelodd yr aelodau â grwpiau ledled Cymru i siarad am yr ymchwiliad. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys BAWSO yn Wrecsam, y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd yn Abertawe, ac Oasis a Migrant Help, ill dau yng Nghaerdydd. |
| Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Gweithiodd y tîm Allgymorth gyda'r Pwyllgor i gasglu barn pobl ifanc ar gyfer ei ymchwiliad i Waith Ieuenctid drwy greu a hyrwyddo arolwg, a chafwyd 1,511 o ymatebion gan bobl ifanc ledled Cymru. |
| Y Pwyllgor Materion | Yn dilyn penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r Pwyllgor wedi bod yn cynnal cyfres o |

| Pwyllgor | Digwyddiad / gweithgaredd |
|---|---|
| Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol | seminarau arbenigol ar themâu penodol i roi gwybodaeth i bobl Cymru ar y broses Brexit. Yn dilyn pob seminar crewyd blog yn trafod y prif bwyntiau.<br><br>Ar 28 Tachwedd cynhaliodd y Pwyllgor ddadl gyda rhanddeiliaid yn Wrecsam i drafod y pryderon a'r cyfleoedd i fusnesau Cymru ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.<br><br>Bydd eu barn yn helpu i hysbysu'r Pwyllgor wrth iddo barhau i geisio deall y goblygiadau llawn i Gymru. |
| Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig | Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i Ddyfodol y Polisïau Amaethyddol a Datblygu Gwledig yng Nghymru, lansiwyd trafodaeth er mwyn i bobl Cymru rannu eu barn. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio cyfraniadau i benderfynu ar ei waith yn y dyfodol.<br><br>Cynhaliodd Cadeirydd y Pwyllgor hefyd drafodaeth ar Facebook Live i ateb cwestiynau a thrafod pryderon pobl Cymru am ddyfodol Amaethyddiaeth yng Nghymru. |

*Deall ac ymgysylltu*

11.2 Ers mis Mai 2016 mae'r tîm Allgymorth wedi gwneud cyflwyniadau a chynnal gweithdai ar waith y Cynulliad gyda grwpiau o bob cwr o Gymru gan gynnwys DeafBlind Cymru, Cynghrair Efengylaidd Cymru, Prifysgol y Drydedd Oes yn Y Trallwng, Disability Can Do ac NEA Cymru.

11.3 Mae'r tîm wedi trefnu rhagor o gyflwyniadau a gweithdai, gan gynnwys sesiynau gyda Chynghrair Efengylaidd Cymru yn Wrecsam a TPAS Cymru.

## 12.0 Sylw yn y cyfryngau

12.1 Enghreifftiau o'r sylw

| Mis | Disgrifiad | Sylw |
|---|---|---|
| Medi | Deisebau | Sylw eang, yn enwedig yn y cyfryngau lleol, yn |

| Mis | Disgrifiad | Sylw |
|---|---|---|
| | | ymwneud â materion lleol ledled Cymru.<br><br>Wales Online, South Wales Echo, Tivyside Advertiser, Cambrian News, South Wales Argus, Daily Express, International Business Times<br><br>Cyrhaeddiad: 4,059,219<br>Gwerth Hysbysebu Cyfatebol: £76,317 |
| | Croesawu arwyr Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Cymru adref | Gwefan BBC News (18 Medi)<br><br>Wales Online, Western Mail, South Wales Echo, South Wales Argus, Abergavenny Chronicle |
| Hydref | Aberfan | Sylw eang i raglen y Cynulliad ar BBC Cymru, ITV Cymru a llawer o bapurau newydd lleol |
| | Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil Cymru | BBC Wales Today, Newyddion, ITV Wales News, Western Mail, Golwg, Good Morning Wales, South Wales Argus, BBC Cymru ar-lein, The Wave/Swansea Sound, Wales Online<br><br>Cyrhaeddiad: 9,612,662<br>Gwerth Hysbysebu Cyfatebol: £136,090 |
| | Sesiwn dystiolaeth Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar y diwydiant dur | Sylw helaeth ar wefan BBC Cymru, newyddion ITV a Heart FM. Deeside.com<br><br>Cyrhaeddiad: 496,120<br>Gwerth Hysbysebu Cyfatebol: £16,823 |
| Tach | Senedd Ieuenctid | Gwefan BBC Cymru, South Wales Argus, Cambrian News, Pontypool Free Press, Monmouthshire Free Press, Chester Chronicle, Carmarthenshire/Pembrokeshire Herald |
| | Sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gyda'r Arglwydd Tony Hall | Darn traethawd gan Gadeirydd y Pwyllgor yn y Western Mail ac ar Clic on Wales.<br><br>Sylw i gyfarfod y Pwyllgor yn y Western Mail, The Guardian, BBC Cymru, The Times<br><br>Cyrhaeddiad: 2,903,955<br>Gwerth Hysbysebu Cyfatebol: £52,679 |

## 13.0 Cyfathrebu Mewnol

13.1 Rhwng 5 Mai a diwedd mis Tachwedd 2016 mae Tîm Cyfathrebu Digidol y Cynulliad wedi parhau i ysgogi ymgysylltu drwy ein sianelau ar-lein.

13.2 Mae hyn wedi arwain at y metrigau canlynol ar gyfer y cyfnod hwn:

| | |
|---|---|
| Gwefan | Cyfartaledd o 41,221 o ymwelwyr a 279,584 o ymweliadau â thudalennau |
| Twitter | Cynnydd o 1,285 (3%) o ddilynwyr ar draws dau brif gyfrif y Cynulliad (gan gyfrannu at gyfanswm o 41,446) |
| Facebook | Cynnydd o 663 (8%) yn y nifer sy'n hoffi ein tudalennau ar draws dwy brif dudalen y Cynulliad (gan gyfrannu at gyfanswm o 7,949) |
| Blog y Cynulliad | Wedi'i weld 6,998 o weithiau gan 4169 o ymwelwyr ar draws 66 o erthyglau blog |
| YouTube | 17,948 o funudau o'n fideos yn cael eu gwylio, 107 o bobl wedi'u rhannu, 26 Hoffi |

*Gwelliannau i'r wefan*

13.3 Mae'r gwelliannau canlynol wedi'u gwneud i brif wefan y Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn.

Gwell mynediad i fetadata er mwyn gwella rhannu cyfryngau cymdeithasol

13.4 Mae SharePoint wedi'i ddiweddaru er mwyn sicrhau bod gwybodaeth fwy ystyrlon yn cael ei dangos pan gaiff tudalennau eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd y cam hwn yn ein galluogi i osod bar 'Rhannu Hwn' ar wahanol dudalennau ein gwefan. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir iddo fod yn fyw yn y misoedd nesaf.

Tudalennau deisebau

13.5 Mae'r cynllun wedi'i ailfformatio, mae'r iaith a ddefnyddir mewn penawdau wedi'i symleiddio, ychwanegwyd graffig i nodi statws pob deiseb (gellir clicio arno er mwyn cysylltu i dudalen newydd, a grëwyd

i ddarparu rhagor o wybodaeth am daith deiseb), a diweddarwyd y swyddogaethau i ganiatáu ychwanegu delweddau at dudalennau Deisebau.

Tudalennau bywgraffiadau'r Aelodau

13.6 Ychwanegwyd teclyn Twitter.

Tudalennau ymchwiliadau pwyllgorau

13.7 Mae cynllun y tudalennau wedi'i ailfformatio, gan gynnwys diweddariad i ymarferoldeb er mwyn galluogi ychwanegu delweddau (gan gynnwys lluniau a fideos o aelodau'r pwyllgorau a theclyn Twitter).

*Ymgyrchoedd digidol*

13.8 Mae'r Tîm Cyfathrebu Digidol wedi parhau i gynnwys pobl Cymru ym mhob rhan o Fusnes y Cynulliad, gan ddatblygu amrywiaeth o ddulliau o gynnal ymgyrchoedd y gellir eu defnyddio pan fydd prosiectau'n gofyn am waith hyrwyddo digidol mwy sylweddol. Y tu hwnt i gynhyrchu a hyrwyddo cynnwys o ddydd i ddydd, efallai y bydd ymgyrch yn galw am greu cyfres o graffigau digidol, Digwyddiad Facebook, hashnod pwrpasol a negeseua, creu fideo a dull aml-lwyfan cyson wedi'i amserlennu sy'n para rhwng 1 a 6 wythnos fel arfer. O fis Mai i fis Tachwedd cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd digidol llwyddiannus, ac fe'u nodir isod.

Hyrwyddo'r ystâd yn fwy

13.9 Yn ogystal â sicrhau cyfrif Twitter y Senedd (a oedd yn arfer bod yn eiddo i ddefnyddiwr Twitter arall) mae'r Tîm Digidol wedi rhoi ffocws o'r newydd ar godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau a gynhelir ar yr ystâd a'r ystad yn gyffredinol. Rydym wedi cynyddu'r defnydd o dudalen Digwyddiadau Facebook ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus ar ein hystâd, a bydd hyn yn creu ymwybyddiaeth ymysg ein cynulleidfa Facebook bod digwyddiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd yn y Pierhead a'r Senedd. Rydym hefyd yn cynyddu'r defnydd o #Senedd ar draws ein tudalennau Twitter ac Instagram ac mae hyn yn cael ei fabwysiadu gan ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol pan fyddant yn sôn am ein hystâd neu'n ymweld â hi.

Ymgyrchoedd pwyllgorau

13.10 Cynhaliwyd ymgyrchoedd digidol llwyddiannus ar nifer o ddarnau o waith y Pwyllgorau gan gynnwys:

- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:
    - Galwad am gwestiynau gan y cyhoedd ar gyfer sesiwn gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol y BBC.
    - Galwad am gwestiynau i Bethan Jenkins ar Facebook Live.
    - Hyrwyddo arolwg
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Materion Gwledig:
    - Galwad i gymryd rhan mewn prosiect Deialog ar Amaethyddiaeth.
    - Galwad am gwestiynau i Mark Reckless ar Facebook Live.
- Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol:
    - Cyfres o flogiau a graffigau #BrexityngNghymru i hyrwyddo sesiynau.
- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:
    - Hyrwyddo arolwg ar-lein ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru
- Y Pwyllgor Cyllid:
    - Hyrwyddo prosiect Deialog ar y Gyllideb.
    - Hyrwyddo'r prosiect Deialog ar y Dreth Dir.

13.11 Mae ymgyrchoedd digidol wedi cael eu creu a'u cynnal ar gyfer:

- Y Llywydd: Galwad am gwestiynau a hyrwyddo'r digwyddiad 'Holi'r Llywydd' ar Facebook Live.
- Codi ymwybyddiaeth gyffredinol; ymgyrch #NabodEichAC a ddefnyddiwyd yn helaeth drwy gydol sioeau'r haf
- Amrywiaeth a Chynhwysiant: hyrwyddo cyfranogiad yn yr arolwg.

Dyma rai enghreifftiau:










<u>Hyrwyddo croesawu'r Tîm Olympaidd adref</u>

13.12 Roedd yr ymgyrch hon yn cynnwys creu graffigau digidol pwrpasol a ddefnyddiwyd ar draws pob un o'n sianelau cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â'r sgriniau yn y Senedd a'r sgrin fawr yn y digwyddiad - cafodd y rhain eu defnyddio gan bartneriaid eraill y digwyddiad hefyd. Roedd yr ymgyrch hefyd yn cynnwys darllediad ar Facebook Live gyda Jason Mohammed a sleidiau ar y sgrin fawr a'r tu mewn i'r Senedd yn ystod y digwyddiad i annog ymwelwyr i bostio lluniau o'u hunain yn y digwyddiad i'w sianelau cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â chynyddu'r gynulleidfa ar gyfer y digwyddiad, un o brif amcanion yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth o'r Senedd. Er mwyn gwneud hyn, sicrhawyd bod #Senedd yn rhan allweddol o'n holl ddeunydd. O ganlyniad, daeth #Senedd yn bwnc a oedd yn trendio ar Twitter am nifer o oriau ac ar ddiwrnod y digwyddiad, amcangyfrifwyd bod y cyrhaeddiad ar Twitter yn unig yn fwy na 150,000 o gyfrifon gan arwain at dros 203,000 o argraffiadau.

13.13 Ymysg y digwyddiadau eraill yr ydym wedi'u hyrwyddo drwy ymgyrchoedd digidol mae:

- yr Agoriad Brenhinol
- Darlith Dydd y Cofio
- Cyhoeddiad Weeping Window (a ddangosir isod)
- Cyhoeddiad Dippy
- Diwrnod Shwmae Su'Mae
- Fideo pob lwc i Dîm Pêl-droed Cymru
- Digwyddiad Haf i'r Teulu
- 




Y Graffig Hyrwyddo Digidol ar gyfer cyhoeddi Weeping Window


*Arloesedd Digidol*

Facebook Live

13.14 Mae Facebook Live wedi'i gyflwyno fel offeryn ymgysylltu digidol newydd ar gyfer y Cynulliad a chynhaliwyd y tair sesiwn Facebook Live ganlynol ers mis Awst, bob un ohonynt yn cynnwys elfen o ateb cwestiynau mewn amser real drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

- Cyflwyniad i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gyda Bethan Jenkins.
- Ffrydio byw o'r digwyddiad 'Holi'r Llywydd' yn yr Eisteddfod.
- Cyfweliad gyda Mark Reckless AC yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i drafod dull gweithredu'r Pwyllgor.

13.15 Mae'r defnydd o'r fformat newydd hwn wedi cael ei groesawu'n frwd gan ein cynulleidfa.  Ymysg y sylwadau a wnaed am y fideos mae "Gwych gweld y Cynulliad ar Facebook Live", "'Roedd hyn yn beth gwych i'w weld" ac "Rwy'n cymeradwyo'r cysyniad o gyfathrebu fel hyn gyda'r gweddill ohonom"




'Holi'r Llywydd' ar Facebook Live

Estyniad digidol i'r brand corfforaethol

13.16 Ar ddiwedd mis Awst cynhaliwyd gwerthusiad o sut mae graffigau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cynhyrchu, a ddangosodd nad oedd brand corfforaethol y Cynulliad yn ddigon hyblyg ar gyfer creu graffigau a fyddai'n apelio at ein cynulleidfa cyfryngau cymdeithasol. Erbyn hyn mae estyniad i'r brand wedi'i ddatblygu sy'n galluogi creu graffigau ar-lein sy'n fwy addas i'w defnyddio ar lein yn ogystal â pharhau i fod yn adlewyrchiad o'r Cynulliad.

Clipio, brandio a hyrwyddo datganiadau 90 eiliad

13.17 Ers cychwyn y datganiadau 90 eiliad yng Nghyfarfod Llawn Dydd Mercher, mae llif gwaith a thempled wedi eu sefydlu sy'n caniatáu i'r holl ddatganiadau 90 eiliad o'r Cyfarfod Llawn gael eu clipio ac ychwanegu capsiynau a cherdyn brand atynt cyn cylchredeg y ffeiliau fideo terfynol wedi'u golygu i'r wasg a'r Aelod a roddodd y datganiad, a'i roi ar YouTube a Twitter yr un diwrnod ag y caiff y datganiadau eu gwneud (yn aml cyn i'r Cyfarfod Llawn orffen). Mae hyn yn golygu bod y datganiadau amserol hyn yn cael eu cylchredeg i'r cyhoedd yn ehangach drwy sianeli ar-lein mewn ffordd eithriadol o amserol.

## 14.0 Cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad

*Ymgysylltu â Phobl Ifanc: estyn allan*

14.1 Mae tîm Addysg ac Ymgysylltu ag Ieuenctid y Cynulliad wedi cyflwyno 325 o sesiynau, gan weithio gyda 212 o grwpiau gwahanol (grwpiau ysgolion/colegau/ieuenctid) ac ymestyn allan i 14,125 o bobl ifanc rhwng 5 Mai a diwedd mis Tachwedd 2016.

*Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Busnes y Cynulliad*

14.2 Defnyddiwyd adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn amryw o ddigwyddiadau dros yr haf fel ffordd o hyrwyddo gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd gyda thros 1,500 o bobl ifanc. Roedd y prif themâu yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc, y Gymraeg a gwasanaethau ieuenctid. Roedd y gweithgareddau amrywiol yn fodd i ni dynnu sylw at y gwaith ymgysylltu yn y gorffennol yn ogystal â grymuso pobl ifanc i gymryd rhan ym musnes y Cynulliad.

14.3 Enghreifftiau o weithgareddau ymgysylltu eraill:

- Mynychodd 714 o ddisgyblion weithdai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru y Cynulliad mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod tymor yr haf. Daethom hefyd yn rhan o Grŵp Cynghori Cymhwyster Bagloriaeth Cymru Prifysgol Caerdydd.
- Ar 11 Mehefin croesawodd Bws y Cynulliad 1007 o bobl ifanc ar Faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ar gyfer Diwrnod Hwyl Cybiau Cymru Gyfan.
- Mae grŵp o ddeg o bobl ifanc, a gefnogwyd gan yr elusen Digartref ar Ynys Môn wedi bod yn gweithio gyda'r tîm fel rhan o'u prosiect Llais y Gymuned. Fel rhan o'r prosiect fe wnaeth y grŵp, a oedd yn cynnwys pobl ifanc rhwng 16-25 oed, gymryd rhan yng ngweithdy etholiad Cymru 2016, cynnal ffug etholiad, mynychu'r orsaf bleidleisio ar Ddiwrnod yr Etholiad a chymryd rhan mewn dau weithdy llawn yn y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd.
- Cafodd Whizz Kids sesiwn ymgysylltu â phobl ifanc yn y gymuned ac yn dilyn hynny cyflwynwyd deiseb i'r Pwyllgor Deisebau.



Whizz-Kidz yn cyflwyno deiseb i'r Cynulliad, yn dilyn gweithdy ymgysylltu â phobl ifanc yng Nghaerdydd

- Cwblhaodd 20 o geidiaid y cynllun Llysgenhadon Ifanc ym mis Hydref.
- Treuliodd 90 o ddisgyblion yn Ysgol Friars ddiwrnod yn dysgu am rôl eu Haelodau Cynulliad ac yn cymryd rhan mewn etholiad ysgol.
- Ym mis Hydref 2016 ymwelodd pobl ifanc o Grangetown a Phafiliwn Ieuenctid Butetown â'r Cynulliad a threulio amser yn holi'r Llywydd.




Y Llywydd, Elin Jones AC yn croesawu myfyrwyr lleol i'r Cynulliad fel rhan o Fis Hanes Pobl Dduon

- Fel rhan o'r rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr Proffesiynol, sef hyfforddiant i addysgu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc am waith y Cynulliad, cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi.  Mae'r rhain wedi cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru ers mis Mai 2016 gan gyrraedd dros 40 o wahanol sefydliadau ieuenctid.
- Cafodd Laura Jane Elliott ei dewis i gynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Victoria, Canada ar gyfer Senedd Ieuenctid y Gymanwlad. Bydd hi ac eraill, gan gynnwys aelodau

o'r Ymgyrch dros Gynulliad Ieuenctid i Gymru, yn awr yn gweithio gyda staff y Comisiwn i helpu i lunio Senedd Ieuenctid ar gyfer y dyfodol i Gymru.

- Mae rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc wedi cael ei chynnal yn Sir Gaerfyrddin gyda mamau ifanc o Plant fel rhan o'r ymgyrch i ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol.
- Ym mis Tachwedd croesawyd saith ysgol uwchradd o bob cwr o Gymru i'r Senedd a Siambr Hywel. Cymerodd y bobl ifanc ran mewn dadl ar Brexit a phobl ifanc a gwleidyddiaeth fel rhan o raglen Hacio ar S4C.
- Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd. Dangosodd y Dirprwy Lywydd waith ymgysylltu â phobl ifanc y Cynulliad i dros 100 o seneddwyr.

*DyGynulliadDi*

Gwnaed gwelliannau i'r wefan DyGynulliadDi ac mae dilynwyr Twitter DyGynulliadDi wedi cyrraedd dros 3,000.

## 15.0 Digwyddiadau Mawr

*Agoriad Swyddogol y Pumed Cynulliad*

15.1 Ddydd Mawrth 7 Mehefin 2016 cynhaliwyd seremoni i ddathlu Agoriad Swyddogol y Pumed Cynulliad Cenedlaethol yn y Senedd lle roedd Ei Mawrhydi y Frenhines, Dug Caeredin a'u Huchelderau Brenhinol Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn bresennol. Daeth 328 o westeion ynghyd, yn cynrychioli cymdeithas ddinesig Cymru, Barnwriaeth Cymru, sefydliadau addysg a phlant ysgol o bob cwr o Gymru, chwaraeon a'r diwydiannau creadigol, sefydliadau rhyng-ffydd, y cyfryngau ac Aelodau'r Cynulliad i gymryd rhan yn y digwyddiad pwysig hwn, gyda'r nod o arddangos y Cynulliad a Chymru.

15.2 Cychwynnodd y digwyddiad gyda gorymdaith o Aelodau'r Cynulliad, dan arweiniad y Brysgyllwr, Chetan Patel, o'r tîm diogelwch a thywys, cyn y seremoni agoriadol. Am y tro cyntaf yn hanes y Senedd, daeth perfformiadau cerddorol ar lawr y Siambr â'r seremoni'n fyw gyda pherfformiadau gan y Delynores Frenhinol a'r Côr Ieuenctid Cenedlaethol, dan arweiniad yr Athro Paul Mealor a oedd wedi

cyfansoddi darn yn benodol ar gyfer yr achlysur i eiriau a roddwyd i'r Cynulliad gan Dr Grahame Davies. Roedd darlleniad o gerdd a gomisiynwyd gan Fardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn hefyd yn rhan o'r seremoni, a gafodd ei harwain gan y Llywydd, yn ogystal ag areithiau gan Ei Mawrhydi y Frenhines a'r Prif Weinidog. Cynhaliwyd cinio yn ddiweddarach yng Nghanolfan Mileniwm Cymru a chyfrannodd partneriaid allweddol eraill gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru at y diwrnod.

*Digwyddiadau'r haf*

15.3 Cafodd y Cynulliad ei gynrychioli ar hyd a lled Cymru yn ystod yr haf, gan fynychu digwyddiadau fel Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol a Pride Cymru. Cynhaliodd y Llywydd a'r pwyllgorau ddigwyddiadau ar stondin y Cynulliad, gan roi cyfle i bobl ddysgu o lygad y ffynnon am waith y Cynulliad ac i gyfrannu'n uniongyrchol ato. Ymwelodd dros 7,000 o bobl i gyd â'r stondin gwnaeth y tîm yn siŵr bod pob un ohonynt yn gwybod pwy yw eu Aelodau'r Cynulliad.

*Digwyddiadau partneriaeth*

15.4 Ym mis Medi cynhaliwyd sesiwn staff ar ddatganoli trethi mewn partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru. Cynhaliwyd digwyddiad i groesawu'r Olympiaid a'r Paralympiaid adref yn y Senedd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

*Rhaglen Goffa y Rhyfel Byd Cyntaf 1914-1918*

15.5 Ym mis Tachwedd, gwahoddodd y Llywydd yr Is-gadfridog Jonathan Riley i'r Pierhead i draddodi darlith ar y Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol a chadoediad mawr Nadolig 1914 - 1915, fel rhan o raglen goffa Rhyfel Byd Cyntaf y Cynulliad. Mae'r ddarlith yn cyd-daro â lansio arddangosfa i nodi canmlwyddiant Cadoediad Nadolig enwog 1914 a chynhaliodd Aelodau'r Cynulliad a'r staff ddau funud o dawelwch i nodi Dydd y Cadoediad ddydd Gwener 11 Tachwedd am 11.00 yn y Senedd.

*Penwythnos Hwyl i'r Teulu*

15.6 Trefnwyd Penwythnos Hwyl i'r Teulu yn ystod tridiau penwythnos Gŵyl y Banc ym mis Awst (27, 28, 29 Awst) a oedd yn cyd-daro â

Gŵyl Harbwr Bae Caerdydd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys peintio wynebau, crefftau, lego, teithiau, diddanwyr plant a man chwarae meddal. Roedd y digwyddiad yn hynod lwyddiannus gyda thros 3000 o bobl yn mynychu dros y tridiau a thrwy deithiau a dosbarthu cyhoeddiadau, roedd modd i ni ymgysylltu â llawer o'r ymwelwyr ynglŷn â busnes y Cynulliad.

*Weeping Window*

15.7 Mae'r Senedd wedi'i dewis yn un o dri lleoliad yn 2017 i fod yn gartref i'r cerflun Weeping Window. Yn rhaeadr o filoedd lawer o babïau ceramig wedi'u gwneud â llaw, gwelwyd *Poppies: Weeping Window* yn wreiddiol yn arllwys o ffenestr uchel hyd y llawr yn Nhŵr Llundain yn 2014 fel rhan o'r gosodiad *Blood Swept Lands and Seas of Red*. Bydd y gosodiad yn cael ei arddangos o 5 Awst i 24 Medi 2017, a bydd y pabïau'n rhaeadru o ffenestr uchaf y Senedd gan lifo i lawr dros y grisiau o flaen yr adeilad.

15.8 Mae Weeping Window yn rhan o gyfres y Cynulliad o ddigwyddiadau i anrhydeddu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf dros y cyfnod coffa pedair blynedd, gan gyfrannu at raglen goffa genedlaethol Cymru'n Cofio 1914-1918. Bydd rhaglen ategol lawn o weithgareddau yn y Senedd yn denu pobl i mewn i'r adeilad, a fydd yn cael ei rheoli a'i datblygu mewn partneriaeth â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru a'r rhaglen 'Cymru dros Heddwch'.

15.9 Dim ond yr ail leoliad yng Nghymru i fod yn gartref i'r cerflun yw'r gosodiad yn y Senedd, gyda Chastell Caernarfon yn cyflwyno Weeping Window ym mis Hydref a mis Tachwedd 2016 gan ddenu hyd at 4000 o ymwelwyr bob dydd.

*Teithiau*

15.10 Mae nifer y teithiau o amgylch y Senedd sy'n cael eu harchebu yn parhau i gynyddu gan arwain at nifer cynyddol o ymwelwyr yn ymgysylltu â busnes y Cynulliad. Mae hyn yn deillio o fwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau ychwanegol yn y Senedd a sicrhau bod yr holl gyfranogwyr mewn digwyddiad yn cael eu gwahodd i fynd ar daith.

# C. Nod strategol - defnyddio adnoddau'n ddoeth

## 16.0 Gwaith ar ystâd y Cynulliad

*Adnewyddu coridor llawr daear, bloc B i ddarparu Ystafelloedd Pwyllgor ychwanegol*

16.1 Mewn ymateb i'r cynnydd mewn cyfarfodydd pwyllgor ar gyfer y Pumed Cynulliad, nodwyd bod angen adnewyddu coridor llawr daear, bloc B Tŷ Hywel i ddarparu ystafelloedd pwyllgor ychwanegol a chyfleuster wrth gefn. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn ystod toriad y Nadolig a bydd yn cael ei gwblhau yn barod ar gyfer tymor yr haf 2017. Bydd y cyfleusterau gwell wedi'u hadnewyddu'n darparu dwy ystafell bwyllgor newydd gan gynnwys orielau cyhoeddus a bythau darlledu a chyfieithu ar y pryd, ac ystafell aros ac ardal ar gyfer egwyl lluniaeth yn ogystal â man cyfarfod hyblyg ychwanegol. Bydd y cyfleusterau eraill sydd ar y coridor ar hyn o bryd, gan gynnwys y swyddfa bost ac ystafell y staff diogelwch yn cael eu symud i leoliadau addas mewn rhan arall o'r adeilad fel rhan o'r prosiect.

## 17.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

*Diweddaru Technoleg y Siambr*

17.1 Cafodd y prosiect i ddiweddaru'r dechnoleg a ddefnyddir gan yr Aelodau yn y Siambr ei gwblhau cyn yr etholiad. Adnewyddwyd y cyfleusterau TGCh a ddefnyddir ar gyfer Cyfarfodydd Llawn yn gyfan gwbl, gan gynnwys monitorau a sgriniau arddangos newydd. Cyflwynwyd system gynadledda newydd gyda gwell meicroffonau, siaradwyr, a phaneli pleidleisio hefyd. Cafodd y feddalwedd a ddefnyddir i ddarparu papurau electronig ac i reoli'r system bleidleisio ei disodli gyda system integredig newydd sy'n fwy gwydn ac yn haws ei chynnal a'i chadw. Bydd y system yn parhau i gael ei datblygu a'i gwella gyda fersiynau newydd a fydd yn cynnig swyddogaethau TG ychwanegol i'r Aelodau.

*Adnewyddu Cyfarpar TGCh yr Aelodau*

17.2 Ar ôl yr etholiad rhoddwyd cyfarpar TGCh newydd i'r holl Aelodau a'u staff cymorth mewn swyddfeydd etholaethol ac yn Nhŷ Hywel. Cynigiwyd llawer mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau o ran eu dewis o gyfarpar a chynigiwyd dewis ehangach o gyfarpar Apple. I ddechrau

rhoddwyd amrywiaeth safonol o gyfarpar TGCh i Aelodau a'u staff, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i ffeiliau a chyfathrebu'n effeithiol tan i'r cyfarpar o'u dewis gyrraedd.

*Gwelliannau i Systemau Clyweledol a Darlledu*

17.3 Gwnaed gwelliannau i'r systemau darlledu a chlyweledol ar yr ystâd, gan osod sgriniau newydd a system sain a chyfieithu well yn oriel gyhoeddus y Siambr, taflunyddion ac offer rheoli newydd sbon ym mhrif neuadd y Pierhead, a seilwaith er mwyn ein galluogi i ffrydio digwyddiadau'n fyw o'r Pierhead a Neuadd y Senedd. Gan weithio gyda'r contractwr darlledu, mae cyfarfodydd pwyllgorau a digwyddiadau o leoliadau anghysbell wedi cael eu ffrydio'n fyw ar Senedd.tv am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod hwn.

## 18.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd

*Gwobr ystyriol o awtistiaeth*

18.1 Dyfarnwyd Gwobr Ystyriol o Awtistiaeth y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol i'r Cynulliad am y drydedd flwyddyn yn olynol. Ochr yn ochr â Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon, a Chastell Windsor, mae'r Cynulliad yn helpu i sicrhau bod y DU yn lle mwy ystyriol o awtistiaeth drwy agor ein drysau i bobl awtistig a'u teuluoedd y mae eu bywydau yn cael eu heffeithio'n ddyddiol gan fusnesau nad ydynt deall eu hanghenion.

## 19.0 Diweddariadau staff

*Cynllun Prentis*

19.1 Yn gynharach eleni, penodwyd pedwar unigolyn i ddilyn trydydd cynllun prentis y Cynulliad gan ddechrau ar eu prentisiaeth ar 5 Medi 2016.

19.2 Mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi cadw cysylltiad rheolaidd gyda phob un o'r prentisiaid dros fisoedd yr haf ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi cynllunio i'w croesawu'n ffurfiol i'r Cynulliad, wedi llunio rhaglen sefydlu bwrpasol ynghyd â'u rhaglenni gwaith cylchdro unigol.

19.3 Mae'r rhaglen gylchdro yn beth newydd i ni, gan fod pob prentis yn dilyn rhaglen 15 mis sy'n cynnwys tri lleoliad pum mis mewn gwahanol wasanaethau. Yn ogystal â chymorth rheolwr llinell, mae

gan bob prentis gyfaill dynodedig sy'n rhoi cymorth anffurfiol ychwanegol iddynt drwy gydol eu lleoliad.

19.4 Ar hyn o bryd mae'r posibilrwydd o ddatblygu'r Cynllun Prentis ymhellach yn cael ei adolygu - drwy wobr arian Dug Caeredin. Byddai hyn yn caniatáu i un o'r prentisiaid arwain y tri arall i ennill y wobr. Bydd y wobr yn cynnwys pedair elfen; Gwirfoddoli, Corfforol, Sgiliau a Hirdaith a byddai'n gyflawniad i'n holl brentisiaid yn ogystal â rhywbeth i'w ychwanegu at eu CV.

*Profiad Gwaith*

19.5 Mae ein rhaglen profiad gwaith yn parhau i ehangu er mwyn i ni ddarparu cymaint o leoliadau profiad gwaith ag y bo modd. Ar hyn o bryd rydym yn cydweithio â phrifysgolion ledled Cymru i ddarparu lleoliadau gwaith ymarferol i fyfyrwyr fel rhan o'u hastudiaethau, ac i helpu pobl ifanc i gael mynediad i'r gweithle. Ar y cyd â'r tîm Cyswllt ag Aelodau a Datblygiad Proffesiynol, mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi bod yn gweithio i gefnogi David Melding AC i ddarparu a chynnal cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc mewn gofal. Bydd y fenter hon yn helpu i gefnogi ein hymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol ac mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn cydgysylltu'r lleoliadau profiad gwaith hyn. Mae hyn yn ehangu ein rhaglen profiad gwaith a bydd yn parhau i feithrin perthynas â sefydliadau trydydd parti. Bydd y mentrau hyn yn cyd-daro â'n trydydd cynllun Prentisiaeth, ac o ganlyniad bydd y Pumed Cynulliad yn croesawu mwy o bobl ifanc i'r gweithle nag erioed o'r blaen.

*Canolbwyntio ar Lesiant*

19.6 Neilltuodd Bwrdd Rheoli'r Comisiwn gyfarfod cyfan i drafod presenoldeb a llesiant ym mis Mehefin 2016 er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn ein cyfraddau absenoldeb a chytuno ar strategaeth i gefnogi presenoldeb. Datblygodd a chyflwynodd yr adran Adnoddau Dynol bapur a oedd yn cynnwys manylion am y rhesymau dros salwch tymor byr a thymor hir, salwch fesul adran a rhesymau cyffredin dros absenoldeb. Awgrmwyd nifer o gamau gweithredu ac argymhellion ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r cynnydd a chytunwyd arnynt gan y Bwrdd Rheoli. Mae gweithgareddau eisoes ar y gweill.

*Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl*

19.7 Yn ystod yr wythnos 10-14 Hydref, dathlodd y Cynulliad wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ac, wedi'i noddi gan y Comisiynydd Joyce Watson, llofnodi'n gyhoeddus addewid sefydliadol Amser i Newid Cymru.

19.8 Mae addewid Amser i Newid Cymru yn ddatganiad cyhoeddus bod sefydliad yn awyddus i gamu ymlaen i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Cynhelir yr ymgyrch gan bartneriaeth rhwng tair elusen iechyd meddwl flaenllaw yng Nghymru - Hafal, Gofal a Mind Cymru. Roedd yr wythnos yn llwyddiant mawr ac yn nodi dechrau cyfres o weithgareddau yn ystod calendr llesiant blynyddol Comisiwn y Cynulliad.

# D. Diweddariad Ariannol

## 20.0 Sefyllfa ariannol 2016-17

20.1 Ein targedau ariannol corfforaethol ar gyfer 2016-17 yw:

a. rheoli adnoddau'n briodol er mwyn sicrhau sefyllfa o danwariant ar ddiwedd y flwyddyn o fewn 0.5% o'r gyllideb weithredol;

b. cyflawni £500,000 o arbedion Gwerth am Arian;

c. sicrhau bod ein perfformiad talu'n brydlon yn parhau i fod o fewn 10 diwrnod.

20.2 Ar ddiwedd mis Medi mae gennym gynlluniau ar waith i ddefnyddio ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn ac rydym yn hyderus y gallwn gyflawni hyn o fewn y targed o 0.5%.

20.3 Rydym wedi cyflawni £361,000 o'n targed arbedion Gwerth am Arian £500,000 erbyn diwedd mis Medi, a chaiff yr arbedion hyn eu cyflawni dros bum mlynedd.

*Cyllideb 2017-18*

20.4 Craffwyd ar gyllideb 2017-18 gan y Pwyllgor Cyllid ar 5 Hydref a chyhoeddwyd ei adroddiad ar 21 Hydref 2016. Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid bedwar argymhelliad ac mae'r rhain i gyd wedi cael eu derbyn. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb ar 16 Tachwedd.

20.5 Mae'r gyllideb wedi cael ei pharatoi i sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i ymateb i'r heriau a wynebir gan y Pumed Cynulliad. Mae hefyd yn amlinellu'r gofynion cyllido dangosol ar gyfer gweddill y Cynulliad ar y sail ganlynol;

a. Cynnydd yn y cyllid gweithredol o 1% uwchlaw chwyddiant ar gyfer 2017-18 a 2018-19 a 0.8% islaw chwyddiant ar gyfer 2019-20 a 2020-21,

b. Cyllido'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau yn llawn, yn unol â'r newidiadau a wnaed gan y Bwrdd Taliadau, sy'n dod i rym o ddechrau'r Pumed Cynulliad (cyfanswm y cyllid amcangyfrifedig yw £15.5 miliwn).

20.6 Nawr bod y gyllideb wedi ei thrafod a'i chymeradwyo, bydd gwaith yn dechrau i ddarparu dyraniadau cyllideb a llythyrau dirprwyo i

Benaethiaid Gwasanaeth yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

**21.0 Y Bwrdd Pensiynau Newydd**

21.1 Cadarnhaodd y Bwrdd Taliadau (fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad) y dylid sefydlu Bwrdd Pensiynau i ddisodli'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, yn unol â *Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013*. Mae'r Bwrdd Pensiynau newydd yn cynnwys:

- dau gynrychiolydd a enwebwyd gan Aelodau'r Cynulliad;
- dau gynrychiolydd a benodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad; ac
- Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol i weithredu fel Cadeirydd.

21.2 Cynrychiolwyr yr Aelodau yw Mike Hedges a Gareth Jones (Ymddiriedolwr Bensiynwr a chyn Aelod o'r Cynulliad). Mae Mike a Gareth yn gyn aelodau o Fwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun ac fe'u penodwyd fel cynrychiolwyr yr Aelodau ar y Bwrdd.

21.3 Cynrychiolwyr y Comisiwn yw Suzy Davies AC a Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn.

21.4 Cadeirydd Annibynnol proffesiynol y Bwrdd yw Jill Youds. Mae Jill hefyd yn cadeirio Bwrdd Pensiynau Barnwrol ac mae'n eistedd ar fwrdd darparwr awtogofrestru pensiwn Llywodraeth y DU, yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST).

21.5 Ers ei sefydlu, mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â hyfforddiant ar fuddsoddiadau'r Cynllun. Mae Ymddiriedolwyr Newydd wedi cael hyfforddiant sefydlu a bydd yr holl Ymddiriedolwyr yn parhau i dderbyn hyfforddiant parhaus i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl a bodloni gofynion y Rheolydd Pensiynau a *Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013*.

21.6 Yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi, adolygodd y Bwrdd y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cynllun, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar weinyddu'r Cynllun, adolygwyd perfformiad buddsoddi a gohebiaeth y Cynllun i aelodau a llofnodwyd Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Cynllun, y mae copi ohono ar gael ar Fewnrwyd yr Aelodau.


# E. Rhyddid Gwybodaeth (FOI)

## 22.0 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2016

22.1 Mae rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwyd o dan y *Deddf Rhyddid Gwybodaeth* ar gyfer y cyfnod chwe mis hyd at fis Medi 2016 i'w gweld isod. Mae hyn wedi cael ei gategoreiddio i ddangos pwnc y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn y cyfnod. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys manylion y wybodaeth a gadwyd yn ôl o ganlyniad i eithriadau Rhyddid Gwybodaeth, y wybodaeth sydd wedi cael ei rhyddhau'n rhannol a'r rhai lle nad oes gwybodaeth yn cael ei chadw.

22.2 Mae'r siart canlynol yn dangos y 38 o geisiadau yn ôl categori. Nid oedd unrhyw eithriadau o ran amser a chost yn berthnasol.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ôl categori (mis Ebrill i fis Medi 2016)**



**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

**Mis Ebrill i fis Medi 2016**

Derbyniwyd 38 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2016. Mae'r categorïau yn arwydd o natur y cais.

| **1. Gwybodaeth a ryddhawyd yn dilyn ceisiadau am fynediad i wybodaeth** | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad | Galw'r Cynulliad yn ôl i drafod TATA Steel |
| | Rhestr o ddyfarniadau a wnaed gan y Llywydd/Dirprwy Lywydd ar ymddygiad annerbyniol yn y Siambr |
| | Natur ddiduedd y Llywydd |
| | Codiad cyflog yr Aelodau |
| | Cost y lluniaeth a ddarperir yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau |
| | Grantiau adsefydlu a dalwyd i Aelodau'r Cynulliad sy'n gadael |
| | Costau TG ar gyfer Aelodau a Staff Cymorth ers dechrau'r Pumed Cynulliad |
| | Negeseuon e-bost rhwng Aelod a'r Llywydd |
| | Nifer y Staff Cymorth a gyflogir gan bob Aelod |
| | Rhestr o Aelodau sydd â dwy neu fwy o rolau etholedig |
| | Dyddiadau geni Aelodau'r Cynulliad. **Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael. Wedi dibynnu ar adran 21 (Gwybodaeth yn hygyrch drwy ddulliau eraill).** |

| 1. Gwybodaeth a ryddhawyd yn dilyn ceisiadau am fynediad i wybodaeth | |
|---|---|
| | Cyflog a threuliau'r Aelodau. **Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael. Wedi dibynnu ar adran 21** |
| | Enwau, bandiau cyflog a swydd ddisgrifiadau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. **Rhywfaint o wybodaeth wedi'i rhyddhau. Wedi dibynnu ar adran 40 (data personol) i beidio â rhyddhau enwau** |
| | Dadansoddiad o dreuliau'r Aelodau. **Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael. Wedi dibynnu ar adran 21** |
| Comisiwn y Cynulliad | Cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg |
| | Polisi chwythu'r chwiban a nifer y cwynion |
| | Nifer y contractau dim oriau |
| | Taliadau bonws i staff Comisiwn y Cynulliad |
| | Rhannu absenoldeb rhiant |
| | Gwariant cardiau credyd |
| | Ystadegau recriwtio |
| | Costau gwaith adnewyddu yn Nhŷ Hywel a'r Senedd yn 2016 |
| | Cyfleusterau i Fwslimiaid |
| | Cyfleusterau ystafell weddi |
| | Log tymheredd yn y Senedd |

| | |
|---|---|
| **1. Gwybodaeth a ryddhawyd yn dilyn ceisiadau am fynediad i wybodaeth** | |
| | Gofalu am Fwslimiaid. **Rhywfaint o wybodaeth wedi'i rhyddhau. Wedi dibynnu ar adran 40 (data personol) i atal rhyddhau gwybodaeth am nifer y Mwslimiaid gyflogir yng Nghomisiwn y Cynulliad.** |
| Aelodau a Chomisiwn y Cynulliad | Costau TG (cyfrifiaduron, gliniaduron, meddalwedd ac ati) |
| | Costau teithio Cyfarwyddwyr a Chomisiynwyr |
| | Y 100 gwefan fwyaf poblogaidd y cafwyd mynediad iddynt |
| **2. Gwybodaeth a gedwir ond nas rhyddhawyd** | |
| Comisiwn y Cynulliad | Salwch hirdymor. **Wedi dibynnu ar adran 40 (data personol).** |
| | Protest yn y Senedd. **Wedi dibynnu ar adran 40 (data personol)** |
| Aelodau a Chomisiwn y Cynulliad | Honiadau o aflonyddu rhywiol. **Wedi dibynnu ar adran 40 (data personol)** |
| **3. Ni chedwir gwybodaeth** | |
| Aelodau'r Cynulliad | Cofnodi yng Nghofnod y Trafodion |
| Comisiwn y Cynulliad | Data agored |
| | Achosion o enllib neu athrod |
| | Byncer niwclear |
| | Gorchymyn RIPA |
| | Rhyddfreinwyr y tir |